Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

REES, RICE (1804 - 1839), clerigwr ac ysgolhaig

Enw: Rice Rees
Dyddiad geni: 1804
Dyddiad marw: 1839
Rhiant: Sarah Rees (née Rees)
Rhiant: David Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr ac ysgolhaig
Maes gweithgaredd: Crefydd; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Selwyn Jones

Ganwyd 31 Mawrth 1804 yn y Ton gerllaw Llanymddyfri, yn fab i David a Sarah Rees - gweler yr ysgrif ' Rees o'r Ton.' Ymddengys mai Annibynnwr oedd y tad, ac yng nghapel yr Annibynwyr y bedyddiwyd Rice Rees, gan Peter Jenkins o'r Brychgoed. Yn 1819 aeth i ysgol ramadeg Llanbedr-pont-Steffan, a oedd ar y pryd dan ofal Eliezer Williams, ond ychydig amser a fu yno. Bu gartref wedyn am ysbaid, ac yn y cyfnod hwnnw yr enynnwyd ei ddiddordeb yn y Gymraeg, gan John Howell, ' Ioan Glan Dyfroedd ', athro'r ysgol Frutanaidd yn y dref. Aeth wedyn i Gasgob, at ei ewythr W. J. Rees i'w baratoi at Rydychen; ymaelododd o Goleg Iesu yn 1822, graddiodd yn 1826 (B.D. 1837), ac etholwyd ef (1828) yn gymrawd o'i goleg. Bu Llewelyn Lewellin yn athro arno yn Rhydychen; pan wnaethpwyd Lewellin yn brifathro Coleg Newydd Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, penodwyd Rice Rees yn athro Cymraeg ac yn llyfrgellydd yno - yn yr un flwyddyn, urddwyd ef; cafodd reithoraeth Llanddewi Efelffre yn 1832 a phenodwyd ef yn gaplan i'r esgob yn 1838 - eisoes yr oedd y gwaith o arholi Cymraeg ymgeiswyr am urddau wedi ei osod arno. Greddf ysgolhaig oedd ynddo, ac y mae ei lyfr *The Welsh Saints*, meddai J. E. Lloyd yn ei ysgrif arno yn y *D.N.B.*, 'yn llawn a golau,' ac eto'n dal ei dir fel awdurdod; traethawd buddugol yn eisteddfod Caerfyrddin (1835) oedd hwn ar y dechrau, ond fe'i helaethwyd yn llyfr yn 1836, a'i gyhoeddi gan ei frawd William Rees (1808 - 1873). Golygodd argraffiad o *Gannwyll y Cymry* , a ddaeth allan (1841) wedi ei farw; ac yr oedd yn aelod o'r pwyllgor a fu wrthi'n golygu argraffiad newydd o'r *Llyfr Gweddi Cymraeg*. Yr oedd yn ei fryd gyhoeddi argraffiad o ' Lyfr Llandaf,' ond bu farw cyn gorffen y gwaith - a gwplâwyd, yn annigonol, gan W. J. Rees yn 1853. Y mae'n bur eglur i Rice Rees weithio'n rhy galed; bu farw'n ddisymwth yn y Bontnewydd ar Wy ar ei ffordd o Gasgob i Lanbedr Pont Steffan, 20 Mai 1839, a chladdwyd yn Llandingad.

Awdur

Selwyn Jones, (1906 - 1981)

Ffynonellau

T. Lloyd Bowen, *Cyfraniad Ressiaid Llanymddyfri i fywyd llenyddol Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg* (1951), traethawd M.A. Prifysgol Cymru, Caerdydd

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29879164

Wikidata: Q7323040

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, S., (1953). REES, RICE (1804 - 1839), clerigwr ac ysgolhaig. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-RIC-1804

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government